



Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Camau Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid		
<p>Bydd angen i ni barhau i weithredu chwe elfen y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. (Cyf. 13140)</p>	✓	<p>Mae'r Adran Addysg a Phlant yn parhau i gyflawni amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae cyflogi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a staff cymorth ychwanegol wedi bod yn digwydd yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn dal i fod ar waith yn holl Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin a'r holl leoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Cynhelir cyfarfodydd bob tymor lle rhoddir cyfle i ysgolion gyfeirio achosion mwy brys yn uniongyrchol at dimau prosiect Cynnydd a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae staff prosiect Cynnydd a'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn dal i roi cymorth parhaus wedi'i dargedu i bobl ifanc 11-18 oed yn yr ysgol, mewn lleoliadau EOTAS a lleoliadau cymunedol. Mae cyswllt cryf rhwng gweithwyr allweddol (EPC; Cynnydd a Cham Nesa) sy'n rhoi bod i gyfleoedd da ar gyfer nodi a thargedu plant a phobl ifanc sydd yn NEET/mewn perygl o fod yn NEET.</p> <p>Caiff pobl ifanc ar draws statws Haen 1, Haen 2 a Haen 4 sydd rhwng 16 ac 18 oed ac sy'n NEET eu nodi drwy'r swyddogaeth SEET (Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant) ac mae ymyriadau ar waith i gynnig cymorth lle rhoddir caniatâd gan bobl ifanc ar gyfer hyn.</p>
<p>Byddwn yn gweithredu'r Camau a nodwyd yn yr hunanasesiad o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid o gymharu â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, er mwyn cynyddu cyfranogiad a fydd yn cyfrannu at ganlyniadau gwasanaeth gwell o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc sy'n NEET. (Cyf. 13141)</p>	✓	<p>Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi cael blwyddyn gynhyrchiol o ran Cyfranogiad ac Ymgysylltiad. Mae hyn wedi golygu bod tasgau a nodwyd wedi'u cwblhau yn unol â'r hunanasesiad yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.</p> <p>Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys pobl ifanc wrth recriwtio staff; • Llunio Crynodeb Person Ifanc o'r Cynllun Busnes Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid mewn ymgynghoriad ag aelodau o'r Cyngor Ieuenctid; • Ymgynghori â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â chynllunio rhaglenni a gweithgareddau adeg y tymor ysgol a'r gwyliau; • Cynnwys plant a phobl ifanc yn Niwrnod Datblygu y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ym Mawrth 2019. Yn deillio o hyn bydd eu barn a'u

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		<p>safbwyntiau'n cael eu casglu er mwyn dylanwadu ar gynllunio busnes yn y dyfodol a phennu blaenoriaethau.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig o ran darparu gwasanaethau dan y Gwasanaeth Cymorth Ieuencid a bydd hyn yn digwydd yn barhaus.</p>
B – Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop		
<p>Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop <i>Cam Nesa a Chynnydd</i>. (Cyf. 13142)</p>	✓	<p>Mae holl elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Mae'r ddau brosiect ar y trywydd iawn ac mae'r ddau reolwr gweithredol dan sylw wedi cyflawni eu dyletswyddau ychwanegol yn llwyddiannus - sy'n ychwanegu gwerth at y prosiect.</p>
<p>Byddwn yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu cwricwlwm amgen o Ionawr 2019 yn lle'r gwasanaethau a gynigir drwy Brosiect Cynnydd. (Cyf. 13143)</p>	✓	<p>Mae'r trefniadau wedi bod ar waith ers peth amser bellach ac mae'r ansefydlogrwydd a gafwyd o ran ansawdd y ddarpariaeth wedi gwella bellach. Mae'r <i>Alternative Learning Company</i> wedi bod yn darparu darpariaeth amgen ar gyfer 33 o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Mae'r fenter hon bellach yn cael ei gwerthuso. Yn ogystal, mae cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed yn cael ei gyfuno drwy ailstrwythuro adrannol, ac mae'r cynllunio hwnnw ar fin cael ei gwblhau.</p>
<p>Byddwn yn datblygu gwasanaethau craidd i gefnogi pobl ifanc (15-25 oed) sy'n profi rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth oherwydd cyflwr cronig. (Cyf. 12535)</p>	✓	<p>Yn ystod y flwyddyn hon, mae tîm pontio i oedolaeth (TAC) wedi cynnal cyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn holl unedau'r Ganolfan. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r broses bontio newydd i oedolaeth sy'n ceisio datblygu llwybrau unigol ar gyfer myfyrwyr sy'n gadael yr ysgol yn seiliedig ar eu sgiliau a'u dyheadau. 94 o unigolion wedi cael cymorth hyd yn hyn eleni gyda tua 1% yn dod yn NEET. Hefyd mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu llwybr i'r rhai ag anghenion cymhleth lle mae'r tîm wrthi'n mapio pawb o flwyddyn 7 ymlaen er mwyn datblygu cynllun datblygu gwasanaeth yn y dyfodol. Mae staff wedi cael eu hyfforddi mewn setiau sgiliau newydd megis dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion, therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) wedi'i addasu a hyfforddiant. Mae'r tîm hefyd yn llywio datblygiad gwasanaeth bob oedran gan gymryd rhan mewn gwahanol weithgorau.</p>
C - Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin		
<p>Byddwn yn gweithredu 20 o argymhellion Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin. (Cyf. 13144)</p>	✘	<p>Mae'r camau gweithredu a argymhellwyd yn yr adolygiad 11-19 wedi cael eu cynnwys mewn ffrydiau gwaith eraill, gan fod y Rheolwr Trawsnewid Dysgu wedi gadael y gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cymryd bellach. Fe eir ar drywydd eraill hyd nes y deuir i gasgliad rhesymol yn eu cylch a chânt eu hadrodd mewn papur cwricwlwm sydd ar fin bod yn destun y broses gorfforaethol.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
Byddwn yn cyflwyno llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chysiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r sir. (Cyf. 13145)	✓	Mae dosbarthiadau wedi recriwtio'n dda ym mhob maes a phwnc. Mae nifer y dysgwyr ar ddarpariaeth ryddfrait Coleg Sir Gâr yn fwy na'r nifer a nodir yn y contract.
D - Adolygiad o Gwricwlwm Sir Gaerfyrddin		
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd pellach i gael prentisiaethau yn y Sir. (Cyf 13146) MF5-38	✓	Mae prentisiaethau yn dal i gael eu trafod gyda Choleg Sir Gâr. Mae trafodaethau diweddar wedi eu seilio ar gynnig galwedigaethol gwell ar gyfer pobl ifanc yn ardal Llanelli. Bydd gweithgarwch cysylltiedig pellach yn destun cam gweithredu newydd yn 2019/20.
Byddwn yn sicrhau y bydd cydnerthu cymunedol yn un o amcanion allweddol cynllun trawsnewid gwasanaeth dydd Anableddau Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth. (Cyf. 12540)	✓	<p>Eleni mae'r blaengynllun gwaith wedi cael ei ddatblygu mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau dydd. Mae grŵp y prosiect yn cwrdd bob mis. Mae unigolion wedi dechrau cael mynediad i fwy o weithgareddau yn y gymuned.</p> <p>Mae'r gweithgareddau newydd wedi cynnwys sgiliau byw bob dydd, 6 grŵp cerdded a sefydlwyd ar draws y sir, nofio, crefft awyr agored, adrodd straeon synhwyaidd, dawn, cynnal a chadw beiciau a beicio i enwi dim ond rhai.</p> <p>Rydym wedi darparu beiciau hygyrch ym Mharc Gwledig Pen-bre ynghyd â lle newid a sgïau a addaswyd er mwyn i'r lleoliad hwnnw fod yn gwbl hygyrch i bawb. Rydym hefyd wedi gweld partneriaeth newydd gydag Ysgol Heol Goffa yn Llanelli sy'n defnyddio ein siop grefftau yn Llanelli yn rheolaidd i ddatblygu sgiliau myfyrwyr a chefnogi eu gweithgareddau mentergarwch. Mae'r hyfforddiant newydd eleni wedi cynnwys TEACCH, sef hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar atebion, prosesu synhwyaidd a <i>run leader</i>. Mae ein gwasanaeth ym Maes Lledi bellach wedi cael ei gydnabod fel y darparwr a ffefrir gan y rheiny sy'n cael pethau'n anodd.</p>
E – Mesurau Perfformiad Cyffredinol		
Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (PAM/009) (Canlyniad 2017/18 – 1.4% / Targed 2018/19 - 1.3%)	✘	Canlyniad 2018/19 - 1.8% (32/1813). Nid yw hyn yn cyrraedd y targed ac mae wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, sef 1.4% (27/1875). Fodd bynnag, mae'r canlyniad hwn yn parhau i fod yn is na chanlyniad 2016-17 o 2.1%. Bu cynnydd hefyd o 10 i 33 o bobl ifanc nad oeddent wedi ymateb i'r arolwg, a gallai rhai ohonynt fod yn NEET hefyd. Gwaith partneriaeth gan ysgolion, staff y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ac asiantaethau allanol gan gynnwys Gyrfa Cymru i gyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) <i>(5.1.0.2)</i> (<i>Canlyniad 2017/18 – 3.0 / Targed 2017/18 - 2.8%</i>)</p>	✘	<p>Canlyniad 2018/19 - 4.9% (33/673). Nid yw hyn yn cyrraedd y targed ac mae wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol, sef 3.0% (20/663). Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y cynnydd yn nisgyblion chweched dosbarth blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol yn dod yn NEET yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34a) (<i>Canlyniad 2017/18 – 72.2% / Targed 2018/19 - 64.3%</i>)</p>	✓	<p>Canlyniad 2018/19 – 64.7% (11 allan o 17). Mae'r canlyniad hwn yn cyrraedd y targed ond mae'n dangos dirywiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r Tîm Rhianta Corfforaethol yn gwneud ei orau glas i helpu'r sawl sy'n gadael gofal i wireddu eu potensial llawn. Fodd bynnag, gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar fywydau pobl ifanc e.e. iechyd meddwl, anawsterau dysgu a bod yn rhieni ifanc amser llawn. Mae'r niferoedd yn y garfan yn fach iawn, ac mae hyn yn gallu cael dylanwad sylweddol ar y canlyniad terfynol o flwyddyn i flwyddyn.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (SCC/34b) (<i>Canlyniad 2017/18 – 64.3% / Targed 2018/19 – 57.2%</i>)</p>	✓	<p>Canlyniad 2018/19 – 61.1% (11 allan o 18). Mae'r canlyniad hwn yn cyrraedd y targed ond mae'n dangos dirywiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r Tîm Rhianta Corfforaethol yn gwneud ei orau glas i helpu'r sawl sy'n gadael gofal i wireddu eu potensial llawn. Fodd bynnag, gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar fywydau pobl ifanc e.e. iechyd meddwl, anawsterau dysgu a bod yn rhieni ifanc amser llawn. Mae'r niferoedd yn y garfan yn fach iawn, ac mae hyn yn gallu cael dylanwad sylweddol ar y canlyniad terfynol o flwyddyn i flwyddyn.</p>